O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 537 (Cy.76)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Cyfyngiad Traffig a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*25 Chwefror 2011*
Yn dod i rym	*7 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494/550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodol o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Cyfyngiad Traffig a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 7 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the length*s of the trunk road") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr